OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 1662

# Rheoliadau Clefyd Affricanaidd y Ceffylau (Cymru) 2013

## RHAN 4

## Lladd-dai

**Gosod rheolaethau cychwynnol mewn lladd-dai**

**14.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys—

(a) pan fo—

(i) Gweinidogion Cymru wedi cael eu hysbysu o dan reoliad 5(1) fod amheuaeth fod ceffyl neu garcas mewn lladd-dy wedi ei heintio â feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau, a

(ii) arolygydd milfeddygol yn barnu bod angen ymchwilio rhagor i'r posibilrwydd fod feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau yn bresennol; neu

(b) pan fo arolygydd milfeddygol, am unrhyw reswm arall, yn barnu bod angen ymchwilio rhagor i'r posibilrwydd fod feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau yn bresennol mewn lladd-dy.

(2) Pan fo paragraff (1)(a) yn gymwys, rhaid i arolygydd milfeddygol roi gwybod (ar lafar neu fel arall) i'r person a roddodd yr hysbysiad fod angen ymchwilio rhagor, ac yna bydd y rheolaethau sydd ym mharagraff (5) yn gymwys.

(3) Rhaid i arolygydd milfeddygol fynd i'r lladd-dy ac archwilio'r ceffyl neu'r carcas hysbysedig, a chaiff archwilio unrhyw geffyl neu garcas arall yno y mae'r arolygydd milfeddygol yn barnu sy'n briodol.

(4) Pan fo paragraff (1)(b) yn gymwys, caiff arolygydd milfeddygol, drwy gyflwyno hysbysiad i'r person sy'n gyfrifol am y lladd-dy, osod y rheolaethau sydd ym mharagraff (5).

(5) Dyma'r rheolaethau, sef bod yn rhaid i'r person sy'n gyfrifol am y lladd-dy sicrhau—

(a) nad oes yr un ceffyl na charcas yn cael ei symud o'r lladd-dy,

(b) nad yw unrhyw geffyl hysbysedig ac unrhyw geffyl arall o'r un fangre â'r ceffyl hysbysedig yn cael ei gigydda, oni chaiff ei awdurdodi i wneud hynny gan arolygydd milfeddygol, ac

(c) os yw unrhyw geffyl hysbysedig neu unrhyw geffyl o'r un fangre â cheffyl hysbysedig eisoes wedi cael ei gigydda, neu'n cael ei gigydda wedi hynny, neu wedi marw, fod ei garcas yn cael ei nodi'n benodol a'i gadw yn y lladd-dy hyd oni fydd arolygydd milfeddygol wedi ei archwilio ac wedi cymryd samplau os yw'n barnu bod angen hynny.

**Camau gweithredu yn dilyn archwiliad**

**15.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo arolygydd milfeddygol wedi gweithredu o dan reoliad 14(3).

(2) Os yw arolygydd milfeddygol wedi ei fodloni nad oes feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau yn bodoli mewn unrhyw geffyl neu garcas yn y lladd-dy, rhaid i arolygydd milfeddygol gadarnhau hyn (ar lafar neu fel arall) i'r person sydd â chyfrifoldeb am y lladd-dy.

(3) Os na ellir diystyru presenoldeb feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau, caiff arolygydd milfeddygol—

(a) drwy gyflwyno hysbysiad i'r person sy'n gyfrifol am y lladd-dy, amrywio'r rheolaethau sy'n gymwys o dan reoliad 14(2) neu a osodwyd drwy hysbysiad o dan reoliad 14(4),

(b) cymryd samplau a'u profi er mwyn sefydlu a yw'r feirws hwnnw yn bresennol yn y lladd-dy(**1**).

(4) Os yw'r Prif Swyddog Milfeddygol wedi ei fodloni bod profion a wnaed o dan y rheoliad hwn yn dangos nad yw feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau yn bresennol yn y lladd-dy, rhaid i arolygydd milfeddygol gadarnhau hyn (ar lafar neu fel arall) i'r person sy'n gyfrifol am y lladd-dy.

(5) Mae paragraff (6) yn gymwys pan fo'r Prif Swyddog Milfeddygol wedi ei fodloni, o ganlyniad i—

(a) unrhyw brawf a wneir o dan y rheoliad hwn, neu

(b) unrhyw arwyddion clinigol yn unrhyw geffyl yn y lladd-dy, neu yn unrhyw fangre arall lle y bu unrhyw geffyl yn y lladd-dy yn ddiweddar,

fod feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau yn bresennol mewn ceffyl neu garcas yn y lladd-dy.

(6) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod carcas pob ceffyl heintiedig yn cael ei waredu mewn ffordd sy'n osgoi'r risg y gallai feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau ymledu(**2**).

(7) Pan fo cadarnhad wedi ei roi o dan baragraff (2) neu (4), neu ar ôl cael gwared ar garcasau o dan baragraff (6)—

(a) mae unrhyw reolaethau sy'n gymwys o dan reoliad 14(2) (ac, os yw'n gymwys, fel y'u hamrywir o dan baragraff (3)(a)) yn peidio â chael effaith,

(b) mae unrhyw hysbysiad a gyflwynir o dan reoliad 14(4) (ac, os yw'n gymwys, fel y'u hamrywir o dan baragraff (3)(a)) wedi ei ddirymu.

(**1**) *Gweler* hefyd bŵer Gweinidogion Cymru o dan reoliad 17 i ddatgan parth cyfyngu dros dro ar symud.
(**2**) *Gweler* hefyd bŵer Gweinidogion Cymru o dan reoliad 18 i ddatgan parth rheoli, parth gwarchod a pharth gwyliadwriaeth.